


Crynodeb o Adroddiad Craffu Byr y:

## Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

# DIWYLLIANT YNG NGHAERDYDD: CRYNODEB

Chwefror 2020

Cyngor Caerdydd

# CYNNWYS

**CYNNWYS** .......... 2

**RHAGAIR** .......... 3

**CYLCH GORCHWYL** .......... 4

**YMAGWEDD A GYMERWYD** .......... 5

**PRIF GANFYDDIADAU** .......... 7

**ARGYMHELLION** .......... 11

*Fel rhan o'n gwaith rhaglennu, gofynnodd yr Aelodau am gael craffu ar rôl Diwylliant yn economi Caerdydd a rôl Cyngor Caerdydd a phartneriaid o ran sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen i Ddiwylliant yng Nghaerdydd, yn erbyn cefnlen o sefyllfa gyllid cyhoeddus sy’n heriol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein prif ganfyddiadau yn y meysydd hyn ac yn cynnig argymhellion sy'n rhoi cyfeiriad clir ar y ffordd ymlaen, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd.*

*Rwy'n ddiolchgar i bawb a wnaeth y gwaith craffu hwn yn waith ystyrlon ac adeiladol, gan gynnwys partneriaid a fynychodd gyfarfodydd gydag aelodau'r pwyllgor ac a ddarparodd gyfraniadau ysgrifenedig, yn nodi eu barn ar y dirwedd bresennol, rôl Diwylliant yn y dyfodol a sut y dylai'r Cyngor a phartneriaid gydweithio orau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i swyddogion a rannodd eu harbenigedd a'u profiad gydag Aelodau. Mae'n amlwg bod Caerdydd yn ffodus o gael partneriaid a staff ymroddedig sy'n ymboeni'n fawr ynghylch gwneud y gorau o fanteision Diwylliant.*

*Canfuom dystiolaeth glir o bwysigrwydd Diwylliant i economi, iechyd a lles Caerdydd. Canfuom hefyd fod Caerdydd mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar effaith drawsnewidiol Diwylliant, gyda pharodrwydd gwirioneddol gan bartneriaid i gydweithio er mwyn hyrwyddo cynnig diwylliannol nodedig o safon uchel yng Nghaerdydd. Er bod adnoddau traddodiadol dan bwysau, gyda’r adnoddau sydd gan y Cyngor ar gael i Ddiwylliant yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llwybrau adnoddau newydd ar gael a phosibiliadau i alinio adnoddau o amgylch amcanion strategol a rennir; mae angen archwilio'r rhain ymhellach.*

*O ran rôl y Cyngor, mae’n amlwg y byddai partneriaid yn croesawu’r Cyngor i gymryd rôl arweiniol fwy o ran hwyluso trafodaethau a chynnig fframwaith ar gyfer cydweithio; mae dymuniad gwirioneddol i rannu'r cyfrifoldeb o ran cyflawni ac i gael gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Diwylliant yng Nghaerdydd.*

*Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o weithgareddau craffu y mae ein Pwyllgor yn ymgymryd â hwy o ran Diwylliant, Digwyddiadau a Thwristiaeth, sy'n dylanwadu ar ac yn siapio ei gilydd. Un testun pryder clir a fynegwyd gan dystion ym mhob un o'r tri ymarferiad craffu oedd yr angen i gytuno ar frand priodol ar gyfer Caerdydd a marchnata Caerdydd yn fwy effeithiol. Rydym wedi cynnwys argymhellion ar hyn ac mae'n debygol y bydd ein Hymchwiliad Twristiaeth yn ychwanegu at y rhain.*

*Rwyf yn ddiolchgar i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau i'r gwaith craffu hwn ac i swyddogion craffu am eu cefnogaeth.*



**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**

**Chwefror 2020**

# CYLCH GORCHWYL

Archwilio rôl Diwylliant yn economi Caerdydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a deall rôl Cyngor Caerdydd a phartneriaid o ran sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen i Ddiwylliant yng Nghaerdydd drwy:

1. Adolygu'r dirwedd bresennol gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cyllideb ac adnoddau.

2. Archwilio rôl creu lleoedd a rôl economaidd Diwylliant yng Nghaerdydd, a'i effaith ar y rhanbarth a'r genedl.

3. Cyfeirio at arfer da yn ninasoedd craidd eraill y Deyrnas Gyfunol a phrofiadau o bob rhan o Ewrop, sydd i'w cael drwy waith Eurocities Creative Cities.

4. Archwilio'r hyn sydd ei angen i sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen o ran rôl Cyngor Caerdydd a Diwylliant yng Nghaerdydd a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

# YR YMAGWEDD A GYMERWYD

M1. Ymgymerodd yr Aelodau â'r gwaith craffu byr ar ddiwylliant yng Nghaerdydd dros ddau gyfarfod pwyllgor ym mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2019, gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal ym mis Ionawr 2020.

M2. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb a chyfrannu at drafodaeth banel:

- Y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet - Diwylliant a Hamdden
- Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau
- Jon Day – Rheolwr Gweithredol – Datblygu Economaidd, a
- Ruth Cayford – Rheolwr Diwydiannau Creadigol a Diwylliant

M3. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth hefyd gan y rhanddeiliaid allanol canlynol a fynychodd y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 a chyfrannu at drafodaeth banel:

- Andy Eagle – Prif Weithredwr, Canolfan Gelfyddydau’r Chapter
- Paul Kaynes – Prif Weithredwr, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

M4. Ysgrifennodd y Gwasanaethau Craffu at amrywiaeth o sefydliadau diwylliannol yng Nghaerdydd, i ofyn a oeddent am gyflwyno eu barn yn ysgrifenedig i'r gwaith craffu byr hwn. Cafwyd ymatebion gan:

- Ffotogallery
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Llenyddiaeth Cymru
- Chris Murray - Arweinydd Dinasoedd Craidd ar gyfer Ymchwiliad Dinasoedd Diwylliannol.

M5. Fel rhan o'r ymarfer craffu byr, ym mis Ionawr 2020, cyfarfu'r Aelodau â Mr Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, a oedd yn dymuno cyfrannu at y broses graffu yn bersonol ac nid oedd yn gallu mynychu'r naill gyfarfod Pwyllgor oherwydd ymrwymiadau blaenorol na ellid eu haildrefnu.

M6. Er mwyn bwydo'r ymchwiliad, cynhaliwyd gwaith ymchwil desg yn cyfeirio at arfer da gan ddinasoedd craidd eraill yn y Deyrnas Gyfunol a phrofiadau o bob rhan o Ewrop, ac a godwyd o'r cyhoeddiadau canlynol:

- Dinasoedd Craidd y DU – *Cultural Cities Enquiry Report – Enriching UK cities through smart investment in Culture* – Chwefror 2019
- Ewroddinasoedd – *Future Creative Cities Report – Why culture is a smart investment for cities* – Rhagfyr 2017

M7. Edrychodd yr Aelodau hefyd ar yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn y dinasoedd canlynol a amlygwyd gan dystion fel patrymau y gellid eu hefelychu:

- Coventry
- Hull.

M8. Defnyddiwyd y dogfennau canlynol hefyd i lywio'r Ymchwiliad:

- The contribution of the arts and culture industry to the UK economy – CEBR Ebrill 2019, available at: https://www.artscouncil.org.uk/publication/contribution-arts-and-culture-industry-uk-economy-0
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru – Llywodraeth Cymru - Rhagfyr 2016, ar gael yn: Datganiad Ysgrifenedig - 'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru' (13 Rhagfyr 2016) | GOV. CYMRU
- Rhaglen Ddiwylliant Dinas-ranbarth Lerpwl, ar gael yn: https://www.liverpoolcityregion-ca.gov.uk/liverpool-city-region-introduces-1-for-culture-programme-to-support-cultural-activities/
- English Heritage – Astudiaeth achos Hull City of Culture 2017, ar gael yn: Hull City of Culture 2017 (historicengland.org.uk)
- Cynnig Dinas Diwylliant Coventry 2021, ar gael yn: city_of_culture_public_bid_2018.pdf (warwick.ac.uk)

M9. Defnyddiwyd yr ymchwil desg, ynghyd â thystiolaeth gan dystion mewnol ac allanol, i nodi canfyddiadau addas i ddod o'r Ymchwiliad.

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Mae diwylliant yn bwysig – ar gyfer yr economi, iechyd a lles.**

KF1. Mae diwylliant yn cyfrannu at yr economi drwy greu cyfoeth, denu ymwelwyr a mewnfuddsoddiad, a thrwy gynyddu cyflogadwyedd unigolion. Yng Nghaerdydd, mae Diwylliant yn cyfrannu'n helaeth at yr economi drwy wariant uniongyrchol, anuniongyrchol a gwariant a gaiff ei ysgogi gan y rheini yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn ogystal â'r sectorau twristiaeth a digwyddiadau.

KF2. Mae diwylliant yn cyfrannu at greu lleoedd drwy wella ansawdd bywyd, hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac adfywio. Mae hyn yn dod ag amrywiaeth o fanteision gan gynnwys cynnydd o ran lles corfforol a meddyliol.

**Mae cynnig diwylliannol Caerdydd yn nodedig iawn ac o ansawdd uchel.**

KF3. Mae Caerdydd yn elwa o gael cwmnïau cenedlaethol wedi'u lleoli yma yn ogystal â gweithgarwch llawr gwlad yn y gymuned leol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau a gwyliau o ansawdd uchel. Mae gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ac mae Caerdydd mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar effaith drawsnewidiol Diwylliant, o ystyried rhwydweithiau a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes.

**Lefelau amrywiol adnoddau sy'n bodoli eisoes**

KF4. Mae gan Gaerdydd gryfderau o ran adnoddau, gan gynnwys: saith cwmni cenedlaethol wedi'u lleoli yma; colegau addysg uwch sy'n denu ac yn cefnogi talent newydd; lleoliadau a sefydliadau cefnogol sy'n awyddus i gymryd rhan mewn mentrau diwylliannol; buddsoddi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau mawr; mewnfuddsoddiad a gaiff ei ddenu gan bartneriaid fel Ffotogallery; a pharodrwydd ymhlith partneriaid i roi cynnig ar ddulliau newydd, arloesol ar adeg pan fo ariannu yn aros yn ei unfan neu’n gostwng. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch cynaliadwyedd y sector celfyddydau yng Nghaerdydd yn y dyfodol a chydnabyddiaeth o’r angen i Gaerdydd gael digon o adnoddau i'w galluogi i gystadlu â dinasoedd eraill sydd â strategaethau a rhaglenni gweithgareddau diwylliannol cryf a chydlynol.

KF5. Mae lefel yr adnoddau sydd gan y Cyngor ar gyfer diwylliant wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd y pwysau ar gyllid cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cyflogi un swyddog i gydgysylltu'n fewnol a chyda phartneriaid i gael gafael ar ac alinio adnoddau ar gyfer diwylliant a’r diwydiannau creadigol; mae hyn yn llai na rhai dinasoedd craidd, fel Manceinion a Lerpwl. Mae gan yr Aelodau bryderon y bydd hyn yn peryglu cof corfforaethol y Cyngor.

**Hygyrchedd Diwylliant**

KF6. Sicrhau bod hygyrchedd a chynwysoldeb yn elfennau hanfodol a sylfaenol o ran ymagwedd effeithiol at ddiwylliant. Ceir tystiolaeth glir gan dystion mewnol ac allanol o waith sy'n cael ei wneud i sicrhau hygyrchedd a chynwysoldeb ar gyfer gwahanol gymunedau yng Nghaerdydd a grwpiau oedran amrywiol.

**Mesur Effaith Diwylliant**

KF7. Mae'n bwysig rhoi mesuryddion effaith ar waith, er mwyn pennu llwyddiant a gwybod lle sydd orau i gyfeirio adnoddau. Gellir pennu llwyddiant o ran diwylliant mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynnal digwyddiad a ganmolwyd gan y beirniaid, cynyddu nifer yr ymwelwyr, gwella iechyd a lles, a chynyddu hygyrchedd a chynwysoldeb. Mae mesuryddion ansoddol yn anos eu rhoi ar waith na mesuryddion meintiol ac mae angen gwneud mwy o waith i nodi mesuryddion sy'n dangos effaith diwylliant ar iechyd a lles.

**Rôl Cyngor Caerdydd yn y dyfodol**

KF8. Mae yna rôl arwain a hwyluso sylweddol i'r Cyngor, gan ddod â phartneriaid at ei gilydd i ddatblygu gweledigaeth a brand, a pharhau i farchnata Caerdydd, denu digwyddiadau ac ymwelwyr a chreu mwy o gapasiti ar gyfer diwydiannau a swyddi creadigol.

KF9. Clywodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor arwain ar y canlynol:

a. **Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol –** roedd tystion yn glir bod hyn yn hanfodol, y dylai fod yn gymharol denau, yn nodi'r uchelgais a'r weledigaeth ar gyfer diwylliant yng Nghaerdydd, gyda nodau trosfwaol clir yn berthnasol ar draws pob sector ac yn cwmpasu Caerdydd gyfan, yn hytrach na chanol y ddinas yn unig. Mae'n hanfodol ei fod yn cael ei ategu gan adnoddau. Dylai gynnwys y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a gallai gynnwys chwaraeon.

b. **Mynd i'r afael â gweithio mewn seilo** – mynnu cydweithrediad rhwng adrannau'r cyngor wrth ystyried a mynd i'r afael âg effaith mentrau'r cyngor ar ddiwylliant, gan gynnwys sicrhau bod diwylliant yn cael ei ystyried yn ystod ac fel rhan o'r broses gynllunio. Yn ogystal, mae cyfleoedd i sefydliadau diwylliannol yng Nghaerdydd gydweithio'n fwy effeithiol, fel sy'n digwydd yn Newcastle/Gateshead. Gallai hyn helpu i wella cyrhaeddiad gwaith diwylliannol yng Nghaerdydd, gan amrywio cynulleidfaoedd drwy ymestyn i mewn i gymunedau ac i ardaloedd newydd yng Nghaerdydd yn ogystal â thramor.

c. **Datblygu Compact Diwylliannol** – byddai hyn yn helpu i ysgogi gwaith ar ddiwylliant ac fe allai fod y corff i'w gyrchu ar gyfer trafodaethau ar adnoddau a'u dyraniad. Mae Cyngor Caerdydd eisoes yn cynnal trafodaethau cychwynnol gyda phartneriaid ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio model compact diwylliannol.

d. **Hwyluso trafodaethau ynghylch ail-frandio priodol** – ni ddylai'r Cyngor orfodi brandio a marchnata ond dylai arwain trafodaethau gyda sefydliadau diwylliannol i ddod i gytundeb ar frand priodol.

**Lefelau Adnoddau yn y Dyfodol**

KF10. Mae cydnabyddiaeth glir o'r angen i'r Cyngor a phartneriaid gydweithio'n arloesol i gael gafael ar gyllid ychwanegol ar gyfer diwylliant a'i alinio. Mae enghreifftiau o hyn eisoes yn digwydd, er enghraifft y Strategaeth a'r Bwrdd Cerddoriaeth a gwaith gyda Chanolfan Gelfyddydau Chapter.

KF11. Mae angen sicrhau digon o adnoddau ar gyfer diwylliant i alluogi Caerdydd i ddarparu cynnwys o safon a chystadlu â dinasoedd eraill sydd â thimau ac adnoddau i gynllunio a darparu strategaethau a rhaglenni diwylliannol cryf a chydlynol.

KF12. Tynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gynnwys a defnyddio asedau ar draws y rhanbarth, gan roi diwylliant wrth wraidd mentrau datblygu ehangach i sicrhau bod yr holl breswylwyr yn elwa o raddfa, ystod ac ansawdd y gweithgarwch diwylliannol y maent yn dymuno ei gael. Mae gan y cyngor reolaeth dros ysgogiadau sylweddol, megis asedau, cynllunio strategol ac ysgogiadau ariannol newydd y gallai eu defnyddio at ddibenion diwylliannol. Gall Compact Diwylliannol helpu i gynyddu gallu Caerdydd i negodi dros adnoddau.

KF13. Gallai'r Cyngor ddefnyddio gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 'ddiwylliant ffyniannus' er mwyn helpu i alinio adnoddau, gan ddod ag adnoddau partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i'r darlun lle mae amcanion strategol yn cyd-fynd.

**Marchnata Cynnig Diwylliannol Caerdydd**

KF14. Mae angen i Gaerdydd sicrhau llais eglur o ran ei chynnig diwylliannol drwy gael sefydliadau diwylliannol i gydweithio er mwyn diffinio'r hyn sy'n nodedig am gynnig diwylliannol Caerdydd ac i gydlynu ac arwain y gwaith o farchnata a hyrwyddo hyn. Mae angen i hyn gynnwys marchnata a hyrwyddo pob math o ddiwylliant.

KF15. Gallai Caerdydd ddysgu gwersi gan ddinasoedd eraill, fel Manceinion, o ran sut y cawson nhw eglurder ar eu neges ddiwylliannol ac wedyn brandio yn unol â hynny. Yr allwedd yw cael brandio gwreiddiol, modern ac arloesol sy'n rhedeg ar draws pob ffurf gelfyddydol a gŵyl. Mae aelodau wedi eu taro'n arbennig gan yr angen i symud oddi wrth '*ddreigiau coch a pheli rygbi'* a thuag at frand sy'n dathlu '*y celfyddydau gweledol a pherfformio cyfoes presennol sydd i'w canfod yn y ddinas*'.

KF16. Dylid gwella gwefan Croeso Caerdydd, gan fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol drwy gael adran gyfoes llawn gwybodaeth ar ddigwyddiadau ac atyniadau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol. Yn ogystal, gellid datblygu cynigion hyrwyddo, er enghraifft drwy dargedu'r rhai sy'n mynd ar wyliau mewn dinas, ymwelwyr diwylliannol a thrigolion â digwyddiadau thema neu dymhorol, megis canolbwyntio ar dymor yr Hydref o ddigwyddiadau a gwyliau diwylliannol.

KF17. O ran marchnata'r Digwyddiad Nodedig, mae'n hanfodol cael strategaeth gysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau effeithiol a chlir sy'n canolbwyntio tuag allan, sy'n gallu denu pobl o'r tu allan i Gaerdydd a Chymru. Ar yr un pryd, trigolion yw'r eiriolwyr pwysicaf dros ddigwyddiadau, o ystyried eu rôl fel mynychwyr, croesawyr ac o ran rhyngweithio ag ymwelwyr, yn ogystal ag annog ymweliadau â digwyddiadau gan eu teuluoedd a'u ffrindiau. Felly, mae'n bwysig bod 'calonnau a meddyliau' lleol yn cael eu hennill i gefnogi digwyddiadau, megis y Digwyddiad Nodedig, a marchnata Caerdydd.

## Arfer Da

KF18. Mae'n ddefnyddiol diffinio elfennau penodol o arfer da sydd bwysicaf i Gaerdydd, gan helpu i ddod o hyd i astudiaethau achos priodol lle gellir dysgu gwersi am egwyddorion neu ddynameg sydd ar waith.

KF19. Mae Adroddiad y Dinasoedd Craidd '*Enriching UK Cities through smart investment in Culture*' (Chwefror 2019) yn nodi pedwar maes allweddol i danio grym diwylliant i sbarduno twf economaidd, sef: Compact Dinas Ddiwylliannol; cynigion buddsoddi newydd; datblygu talent dinas; ac asedau eiddo diwylliannol a threftadaeth. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ac yn nodi offer ymarfer er mwyn helpu i'w gweithredu.

KF20. Daw'r adroddiad Eurocities '*Future Creative Cities'*(Mawrth 2018) i'r casgliad bod angen y canlynol gan weinyddiaethau dinasoedd i wneud i fuddsoddiad mewn diwylliant mewn dinasoedd weithio: meddylfryd partneriaeth i hwyluso'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth feiddgar ar gyfer diwylliant; gwell cydweithredu rhwng gwasanaethau; gwerthfawrogi gweithwyr diwylliannol; parodrwydd i archwilio ac agor llwybrau ariannu newydd a bod yn arloesol; helpu'r sector diwylliannol i ddod yn drefnus; a monitro a gwerthuso effaith Diwylliant.

Mae'r Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant yn argymell y dylai'r Weithredaeth:

***R1.*** ***Ymrwymo i gymryd rôl arweiniol glir wrth gyfleu a llunio uchelgais ddiwylliannol Caerdydd, gan ddarparu fframwaith ar gyfer cydweithio a chydweithredu â sefydliadau diwylliannol partner i gyflawni canlyniadau ar y cyd.***

***R2.*** ***Arwain sgwrs a thrafodaeth i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant fer, gryno a phwrpasol sy'n cwmpasu Caerdydd gyfan yn ogystal â chelfyddydau a diwylliant cymunedol llawr gwlad a lleol yn ogystal â gweithgareddau diwylliannol nodedig Caerdydd.***

***R3. Parhau i arwain y gwaith o ffurfio Compact Diwylliannol ar gyfer Caerdydd, gan ddefnyddio gwybodaeth a chefnogaeth y rhwydwaith Dinasoedd Craidd a dysgu gan fabwysiadwyr cynnar Compactau Diwylliannol.***

***R4. Egluro'r disgwyliad y bydd adrannau'r cyngor yn cydweithio i ystyried effaith mentrau'r cyngor ar ddiwylliant, gan sicrhau yr eir i'r afael yn ddigonol ag unrhyw effeithiau negyddol.***

***R5. Swyddogion gorchwyl i archwilio'r defnydd o ysgogiadau adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor, gan gynnwys defnyddio asedau'r Cyngor a chynllunio strategol, gan gynnwys cyfraniadau a negodwyd gan ddatblygwyr.***

***R6. Swyddogion gorchwyl i archwilio'r defnydd o ysgogiadau ariannol sydd ar gael i'r Cyngor, gan gynnwys y rhai a restrir yn yr adroddiad hwn a'r rhai a nodir yn Adroddiad Ymchwiliad Dinasoedd Diwylliannol y Dinasoedd Craidd.***

***R7. Sicrhau bod buddsoddiad y cyngor mewn diwylliant yn amodol ar osod mesuryddion effaith priodol ar waith ac adrodd arnynt, er mwyn helpu i benderfynu ar y ffordd orau o gyfeirio adnoddau yn y dyfodol.***

***R8. Gweithio gyda phartneriaid i nodi'r posibilrwydd o alinio adnoddau drwy ddefnyddio gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o gael 'diwylliant ffyniannus', gan ddod ag adnoddau partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i'r darlun lle mae amcanion strategol yn cyd-fynd.***

***R9. Swyddogion gorchwyl i adolygu'r prosesau sydd ar waith i sicrhau cof corfforaethol o ran Diwylliant a gwella'r rhain yn ôl yr angen.***

***R10. Arwain sgwrs gyda sefydliadau diwylliannol yng Nghaerdydd i gytuno ar frand priodol ar gyfer Caerdydd sy'n hyrwyddo'r cynnig diwylliannol unigryw ac o ansawdd uchel sydd ar gael yma.***

***R11. Gweithio gyda sefydliadau diwylliannol i hyrwyddo a marchnata arlwy ddiwylliannol Caerdydd.***

***R12. Gwella gwefan Croeso Caerdydd drwy gael adran gyfredol a llawn gwybodaeth ar ddigwyddiadau ac atyniadau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol.***

***R13. Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a marchnata Caerdydd.***

***R14. Defnyddio'r sgriniau mawr yng nghanol Caerdydd i roi gwybodaeth i ymwelwyr am y cynnig diwylliannol sydd ar gael.***

## Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant



Y Cynghorydd Nigel Howells
(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Iona Gordon



Y Cynghorydd Jane Henshaw



Y Cynghorydd Gavin Hill-John



Y Cynghorydd Thomas Parkhill



Y Cynghorydd Adrian Robson



Y Cynghorydd  Abdul Sattar



Y Cynghorydd Elaine Simmons



Y Cynghorydd Ed Stubbs

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
Ffôn: 029 2087 2953    E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
© 2020 Cyngor Sir Caerdydd